**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR ANFANTAIS GYMDEITHASOL – YSTYRIED ADRODDIAD DRAFFT**

## 1. Diben

Gwahoddir barn y pwyllgor ar ddrafft amgaeëdig Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Anfantais Gymdeithasol. Yr oedd Adeiladu Cymru Gynhwysol, y ddogfen bolisi ar gynhwysiant cymdeithasol, yn ymrwymo'r Swyddfa Gymreig, ac wedi hynny, y Cynulliad Cenedlaethol, i baratoi adroddiad blynyddol o'r fath ar Gynhwysiant Cymdeithasol. Mae'r ymrwymiad i baratoi adroddiad hefyd yn rhan o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol.

## 2. Crynodeb

2.1 Mae'r adroddiad drafft sydd ynghlwm yn nodi'r camau a gymerwyd ers sefydlu'r Cynulliad ac mae'n cynnig targedau ar gyfer mesur cynnydd a wneir gan y Cynulliad ymhen blwyddyn.

<u>Testun</u>

2.2 Cynigir dechrau'r adroddiad gyda rhagair gan Mrs Hart, yn ailddatgan pwysigrwydd anfantais gymdeithasol fel un o brif themâu'r Cynulliad gan ei chlymu wrth y prif themâu eraill sef datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal.

2.3 Mae drafft diweddaraf yr Adroddiad yn diffinio anfantais gymdeithasol ac yn esbonio'r problemau sy'n cyfrannu ati ac yn ei hatgyfnerthu. Mae'n esbonio beth yw Mynegai Amlamddifadedd Cymru a chefndir Gwell Cymru. Mae'n trafod cynllunio a chyflwyno polisïau a'n dull o weithio mewn partneriaeth er mwyn ymdrin â'r problemau a nodir. Mae'r adroddiad yn dangos pa mor bwysig yw rhaglenni'r Cynulliad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol ac mae'n rhoi enghreifftiau ymarferol o sut mae'r rhain wedi gweithio hyd yn hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pobl mewn Cymunedau
- Y Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Cymdeithasol
- Creu Cymunedau Iach (Cynghreiriau Iechyd Lleol, SHARP, Canolfannau Byw'n Iach)
- Polisïau i gefnogi pobl ifanc (Ymestyn Hawliau, Cynhwysiant i'r Ifanc, Ar y Trywydd)
- Plant (Cychwyn Cadarn, Y Gronfa Bartneriaeth i Blant a Phobl Ifanc)

- Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

2.4. Mae'r Adroddiad hefyd yn trafod cynlluniau Llywodraeth y DU sy'n cael effaith ar Gymru megis rhaglennu O Fudd-dal i Waith, a'r amrywiol Raglenni dan y Fargen Newydd. Hefyd, mae'n cyfeirio at roi Cymunedau'n Gyntaf ar waith yr haf hwn.

Fformat

2.5. Bwriedir cyhoeddi dau fersiwn o'r Adroddiad Blynyddol. Byddai'r cyntaf yn adroddiad mwy ffurfiol yn cynnwys y cefndir a'r ffeithiau a'r ffigurau (fel uchod). Byddai'r ail yn grynodeb llai ffurfiol, a gyflwynir fel dogfen blyg neu daflen fel ei bod ar ffurf mor hylaw â phosibl. Byddai'r ddogfen olaf o'r ddwy ar gael yn eang mewn meddygfeydd, canolfannau cymuned, swyddfeydd post ayb. Rhoddir ystyriaeth bellach i'n cynulleidfa darged a sut orau i'w cyrraedd. Un awgrym a gawsom oedd y gallem ofyn i Swyddfa'r Post roi taflen i bob cwsmer y maen nhw'n eu gwasanaethu. Bydd angen hefyd ystyried canlyniad y ddadl ddiweddar yn y Cynulliad Cenedlaethol ar ymgynghori a chyfranogi.

## 3. Amseru

3.1 Bwriedir cynnal trafodaeth lawn ar ffurf ddrafft yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer yr 8fed Mawrth. Unwaith y mae'r Cynulliad llawn wedi cadarnhau'r adroddiad, neu wedi awgrymu meysydd ar gyfer newid, bydd y ddogfen yn cael ei hargraffu yn y fformatau a awgrymwyd ac yn cael ei dosbarthu cyn gynted ag y bo modd.

## 4. Cefndir

4.1 Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yw un o'r tair prif thema y mae'r Cynulliad wedi'i mabwysiadu yn ei gynllun strategol, 'Gwell Cymru'. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i frwydro yn erbyn tlodi ac anfantais gymdeithasol a phontio'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf di-fraint yng Nghymru a'r rhai mwyaf cefnog.

4.2 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn gymorth i roi cyhoeddusrwydd i'r camau a gymerir gan y Cynulliad Cenedlaethol i frwydro yn erbyn tlodi ac yn gyfrwng i osod targedau ac adrodd yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r meysydd lle bo angen rhagor o waith. Bydd yr Adroddiad yn ganolbwynt ar gyfer cynllunio camau eraill cynaliadwy ac yn benodol i adrodd yn ôl ar y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

## 5. Cydsynied

5.1. Mae Adrannau 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, 40 yn gydnaws â swyddogaethau'r Cynulliad. Nid oes dim ystyriaethau gyda golwg ar reoleidd-dra na phriodoldeb. Mae Swyddfa Gydsynied y Cynulliad yn fodlon.

## 6. Goblygiadau ariannol

6.1 Cost argraffu a dosbarthu'r adroddiad blynyddol hwn fydd oddeutu £25,000 gan ddibynnu ar y fformatau a ddewisir ar gyfer argraffu, Daw'r arian o gyllideb Cyhoeddusrwydd yr Uned Adfywio Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol ac ni fydd dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yr holl wariant ar anfantais gymdeithasol yn dod o'r cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ymgynghorwyd â'r Is-Adran Cynllunio Ariannol ynghylch y cyflwyniad hwn ac maent yn fodlon ar yr agweddau ariannol.

## 7. Themâu Trawsbynciol

7.1 Mynd i'r afael ag Anfantais Gymdeithasol yw un o brif themâu trawsbynciol y Cynulliad.

**Cangen Cymunedau**

**Uned Adfywio Cymunedau a Chynhwysiant Cymdeithasol**

**Chwefror 2001**